LEIGH, EDMUND (1735? - 1819), clerigwr Methodistaidd

Enw: Edmund Leigh
Dyddiad geni: 1735?
Dyddiad marw: 1819
Rhiant: Richard Nash Leigh
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clerigwr Methodistaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd c. 1735, mab Richard Nash Leigh, curad Llanwynno ac Aberdâr. Ef yw'r ' Edmund Leigh of Penrydd, co. Pembroke ' a urddwyd yn ddiacon gan esgob Tyddewi yn 1760 a'i drwyddedu'n gurad i Henllan Amgoed. Urddwyd ef yn offeiriad yn 1761 a'i drwyddedu'n gurad i Landybïe. Yr oedd yn gurad Llanedi o 1762 hyd ei farw, a gwasanaethai blwyf cyfagos Llandeilo-Talybont hefyd. Daeth i gyswllt â Howel Harris yn 1769 a dechreuodd gyfathrachu â'r Methodistiaid. Mynychai'r sasiynau yn chwarter olaf y ganrif, ond tebyg iddo gadw draw yn ddiweddarach. Bu farw 14 Rhagfyr 1819, yn 84 mlwydd oed, a'i gladdu yn Llanedi.

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, xi, 46-9; xxiii, 4-13; xxxiii, 102

Bradney, *A History of Monmouthshire*:, v, 42

G. M. Roberts, *Methodistiaeth fy mro sef ymchwil i ddechreuad Methodistiaeth yn Nwyrain Myrddin* (1938), 61-6

Ep. Registers, Diocese of S. Davids

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732921

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu